# CWMNI CANOLFAN YR AELWYD CAERNARFON CYF

England & Wales · Charity number 1087043

## Details

| | |
|---|---|
| **Other names** | CANOLFAN YR AELWYD, CAERNARFON |
| **Status** | Registered |
| **Legal form** | Charitable company |
| **Company number** | 04227534 |
| **Registered** | 2001-06-18 |
| **Register** | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| **Address** | 3-5 Stryd Yr Eglwys<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SW |
| **Phone** | 0123456789 |
| **Email** | AELWYD.CAERNARFON@GMX.COM |

## Activities

**Objects:** A) PROMOTE THE BENEFIT OF THE INHABITANTS OF CAERNARFON AND THE SURROUNDING AREA, WITHOUT DISTINCTION OF SEX, SEXUAL ORIENTATION, RACE, POLITICAL, RELIGIOUS OR OTHER OPINIONS, BY ASSOCIATING TOGETHER THE SAID INHABITANTS, VOLUNTARY AND OTHER ORGANISATIONS IN A COMMON EFFORT TO ADVANCE EDUCATION AND TO PROVIDE FACILITIES IN THE INTERESTS OF SOCIAL WELFARE FOR RECREATION AND LEISURE-TIME OCCUPATION WITH THE OBJECT OF IMPROVING THE CONDITIONS OF LIFE FOR THE SAID INHABITANTSB) ESTABLISH OR SECURE THE ESTABLISHMENT OF A COMMUNITY CENTRE AT THE PREMISES KNOWN AS YR AELWYD, OR AT SOME OTHER PREMISES, AND TO MAINTAIN AND MANAGE THE SAME IN FURTHERANCE OF THESE OBJECTS

**Activities:** Mae'r elusen yn gyfrifol am adeilad sydd yn cael ei ddefnyddio gan y gymdeithas - yn unigolion, cymdeithasau ffurfiol neu anffurfiol, mudiadau elusennol / elusennol eu natur neu elusenau. Mae'r adeilad yn nrhef Caernarfon, Gwynedd.

Downloaded from opencharities.uk/ew/1087043

## Classification

- **How:** Provides Buildings/facilities/open Space
- **What:** General Charitable Purposes
- **Who:** Children/young People, Other Charities Or Voluntary Bodies, The General Public/mankind

## Geography

- **Area of benefit:** CAERNARFON AND THE SURROUNDING AREA
- Gwynedd

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-03-31 | £9,226 | £5,071 | - | - |
| 2024-03-31 | £10,558 | £4,689 | - | - |
| 2023-03-31 | £9,400 | £12,083 | - | - |
| 2022-03-31 | £7,670 | £25,127 | - | - |
| 2021-03-31 | £36,255 | £34,972 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| **ALED WYNNE ROBERTS** | Chair | |
| Gruffydd Idwal Williams | | |
| PAUL ANTHONY ROYLE | | |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1087043 

**CWMNI CANOLFAN YR AELWYD CAERNARFON CYF**

England & Wales - Charity number 1087043

# Accounts

# CWMNI CANOLFAN YR AELWYD, CAERNARFON cyf

Rhif y Cwmni :- 04227534

Rhif Elusen :- 1087043

## Adroddiad Ariannol 2020/2021

## Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

*Mae'r Adroddiad Ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth, 2021 wedi ei baratoi gan Cwmni Canolfan yr Aelwyd Caernarfon, cyf. O wyrio lyfrau, thalebau a chyfrif banc y Cwmni ac o'r wybodaeth a'r eglurhadau a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd ardystiaf fod yr Adroddiad Ariannol yn adlewyrchiad cywir o'r flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth, 2021 a sefyllfa presennol y Cwmni.*

---------------------------------------------------------------

Richard Eifion Jones
Glascoed, Bethel, CAERNARFON, Gwynedd. LL55 1UW

Dyddiad 20. 8. 2021

# CWMNI CANOLFAN YR AELWYD CAERNARFON CYF.
(Trwy Warant)

## ADRODDIADAU ARIANNOL

## AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

(Rhif y Cwmni 04227534)

(Rhif Elusen 1087043)

## CWMNI CANOLFAN YR AELWYD CAERNARFON CYF.

### CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| **Manylion** | **1** |
| **Adroddiad y Cyfarwyddwyr** | **2 - 3** |
| **Cyfrif Incwm a Gwariant** | **4** |
| **Datganiad o Symudiadau Ariannol** | **5** |
| **Mantolen a nodiadau** | **6 - 9** |

## CWMNI CANOLFAN YR AELWYD CAERNARFON CYF.

## GWYBODAETH AM Y CWMNI

Mae'r Cwmni yn Gwmni Cyfyngedig dan Warant a heb gyfranddaliadau.

Cofrestrwyd yng Nghymru

Manylion Gweinyddol

| | |
|---|---|
| **Rhif Cofrestredig y Cwmni** | 04227534 |
| **Rhif Cofrestredig fel Elusen** | 1087043 |
| **Swyddfa Gofrestredig** | Yr Aelwyd<br>3 - 5 Stryd yr Eglwys<br>Caernarfon<br>Gwynedd. LL55 1SW |
| **Cyfreithwyr** | Wyn T Jones<br>Maes Glas<br>37 Y Maes<br>Caernarfon |
| **Bancwyr** | Santander UK plc<br>Business Banking<br>301 St Vincent Street,<br>GLASGOW. G2 5NT |

**CWMNI CANOLFAN YR AELWYD CAERNARFON CYF.**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR**

Cyflwyna'r Cyfarwyddwyr gyfrifon y Cwmni am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2021.

**Amcanion**

Sefydlwyd y Cwmni ar y 1 o Fehefin 2001. Ei brif bwrpas yw cynnal man cyfarfod ac adnoddau i gymdeithasau, clybiau a sefydliadau gwirfoddol neu elusennol eu natur, sydd yn gwasanaethu'r gymuned, i gyfarfod yn rheolaidd. Mae hefyd ar gael i drigolion a chymdeithasau lleol i wneud defnydd achlysurol o'r adnoddau.

**Adolygiad, Gweithgaredd a Llwyddiannau**

Oherwydd cyfyngiadau a rheolau Cofid19 ychydig iawn o weithgaredd oedd. Roedd ffenestr fach o Hydref i Ragfyr ble oedd hi'n bosibl i glybiau cadw'n heini ac iach cynnal nosweithiau. Cymerwyd mantais o hyn gan Dawnswyr Caernarfon (fel clwb cadw'n heini) a'r Clwb Codi Pwysau. Yn ychwanegol defnyddiwyd y cyfleusterau gan glwb karate Caernarfon, oedd yn chwilio am le newydd i ymarfer. Popeth yn dod i ben ychydig cyn y Nadolig.

Ym mis Medi hysbysebwyd bod grantiau (cefnogaeth i fusnesau oherwydd problemau Cofid19) ar gael gan Lywodraeth Cymru. Rhain yn cael eu gweinyddu gan Cyngor Gwynedd. Cymerodd y Cwmni pob mantais ar hyn a derbyniwyd cyfanswm o £33,000. Gan fod yr adeilad yn wag, i bob pwrpas, aethom ati i wneud gwelliannau oedd wir angen eu gwneud. Mae tô allanol newydd (a hwn wedi ei insiwleiddio) ar y Neuadd a'r Gegin (£10,300), gosodwyd ffenestri dwbl yn y Neuadd (£5,200), glanhau a pheintio'r Neuadd a'r Gegin (£700) ac ail-weirio'r trydan yn y Neuadd a'r Gegin, gweddill y llawr gwaelod (sef y Parlwr, cyntedd canol a'r pasej o'r drws tu blaen), y Selar a hefyd Llawr 1 (£11,400). Roedd bwriad i wneud rhan o'r gwaith yma, beth bynnag, gyda'r arian sydd tu cefn. Yn ychwanegol roedd gwaith cynnal a chadw a man gwelliannau wedi ei wneud cyn cael gwybod am y grantiau (£2,300). Cafwyd cyngor gan y trydanwr bod angen ail-weirio gweddill yr adeilad a bydd hyn yn digwydd yn y flwyddyn ariannol nesaf yn defnyddio rhan o'r arian sydd tu cefn.

Mae 4 ystafell ar y trydydd llawr yn dal i gael eu llogi ar gyfer storio ar rent masnachol - gan Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, Dawns i Bawb a Datrys. Mae'r un ystafell ddefnyddiol arall ar gael i ddefnyddwyr yr Aelwyd gyda Dawnswyr Caernarfon yn cadw gwisgoedd yna. Mae ystafelloedd Llawr 1 a 2 dal yn wag gyda'r bwriad y byddant yn cael eu defnyddio gan gymdeithasau lleol yn y dyfodol.

**Strwythur, Llywodraethu a Rheoli**

Mae'r Cwmni yn gwmni cyfyngedig dan warant, heb gyfranddaliadau ac yn elusen gofrestredig sy'n cael ei lywodraethu gan Femorandwm ac Erthyglau'r Cwmni.

Mae aelodau'r Bwrdd a'r hawl i ethol unrhyw aelod newydd ar ôl gwahoddiad ffurfiol. Mae'r apwyntiadau yn cael eu gwneud yn y cyfarfod blynyddol yn unol â Memorandwm ac Erthyglau'r Cwmni.

Rheolir busnes yr Elusen gan yr Ymddiriedolwyr sydd yn cyfarfod yn ffurfiol o leiaf tair gwaith y flwyddyn. Maent yn gyfrifol am sicrhau fod y Ganolfan yn cael ei rheoli'n effeithiol er mwyn parhau fel adnodd defnyddiol i'r gymdeithas i'r dyfodol. Gwneir man benderfyniadau, yn unol â pholisïau a phenderfyniadau'r Ymddiriedolwyr, rhwng y cyfarfodydd gan yr Ysgrifennydd.

Nid oes staff cyflogedig.

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR - parhad**

**Cyfarwyddwyr (Ymddiriedolwyr)**

Dangosir isod enwau cyfarwyddwyr y Cwmni yn ystod y flwyddyn a'r rhai presennol.

Aled Wynne Roberts (Cadeirydd)
Paul Anthony Royle
Gruffydd Idwal Williams (Ysgrifennydd)

**Adolygiad Ariannol**

Y brif risg sydd yn wynebu rhediad esmwyth y Cwmni yw gwariant sylweddol annisgwyl ar yr adeilad. Ym marn yr Ymddiriedolwyr buasai isafswm o £8,000 tu cefn yn ddigonol i'r Cwmni redeg am flwyddyn neu ddwy gyda'r swyddfeydd yn wag neu wneud cynnal brys dros dro. Buasai tua £12,000 wrth gefn yn swm digonol at unrhyw anffawd. Mae'r sefyllfa'n llawer, llawer gwell na hyn ar hyn o bryd. Mae swm sylweddol yn y banc a mae'r swm sydd wedi ei buddsoddi mewn cronfa buddsoddi ar gyfer elusennau hefyd yn sylweddol. Ni welwn unrhyw broblem am 2021/22 nag yn y tymor canolig petai loriau 1 a 2 yn aros yn wag am gyfnod neu'n cael eu defnyddio gan elusennau neu gymdeithasau lleol ar renti llai na rhent llawn fasnachol. Nid ydym yn medru cyfiawnhau gwneud asesiad am fwy na'r tymor canolig.

**Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r adroddiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (UKGAAP).

Mae cyfraith cwmni yn ei wneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr baratoi Adroddiadau Ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sydd yn rhoi golwg cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac o'r adnoddau i mewn ac allan am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r adroddiadau ariannol, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr:-

- ddewis polisïau cyfrifo addas ac yna eu gweithredu'n gyson.
- dilyn egwyddorion a gweithdrefnau sydd yn y SORP elusennau.
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol ac yn ddarbodus.
- paratoi adroddiadau ariannol ar sail bod y busnes yn parhau oni bai nad yw'n addas i gymryd y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo addas sydd yn datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol, ac i'w galluogi i sicrhau bod yr Adroddiadau Ariannol yn cydymffurfio a Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau asedion y cwmni elusennol a thrwy hynny cymryd camau rhesymol er mwyn atal a datgelu unrhyw dwyll neu anghysondeb arall.

Mae'r adroddiad wedi ei baratoi yn unol â darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sydd yn dilyn trefniadau cwmnïau bychan.

Arwyddwyd ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr

G. I. Wms ...................... G. Idwal Williams (Ysgrifennydd)

1 af Mehefin 2021 ...... Dyddiad

**CWMNI CANOLFAN YR AELWYD CYF.**

**CYFRIF INCWM A GWARIANT**

**AM Y CYFNOD YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021**

| | Nodyn | 2021 | 2020 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| **Trosiant** | 1 | 36,225 | 8,322 |
| Cost Gwerthiant | | (-34,841) | (-5,561) |
| **Gwarged Grôs** | | 1,384 | 2,761 |
| Costau Gweinyddol | | (-131) | (-188) |
| **Gwrged y Flwyddyn** | 2 | 1,253 | 2,573 |
| Cronfa d/y | | 118,229 | 115,656 |
| **Cronfa c/y** | | 119,482 | 118,229 |

Mae'r nodiadau ar dudalen 7 i 9 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn

## CWMNI CANOLFAN YR AELWYD CYF.

## DATGANIAD O SYMUDIADAU ARIANNOL

## AM Y CYFNOD YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021

| | Cronfa Cyffredin £ | Cyfanswm 2021 £ | Cyfanswm 2020 £ |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau i Fewn** | | | |
| **Adnoddau i fewn o godi arian** | | | |
| Llog | 568 | 568 | 1,690 |
| **Adnoddau i fewn o weithgareddau elusennol** | | | |
| Grantiau | 33,000 | 33,000 | 0 |
| Rhent | 580 | 580 | 1,080 |
| Incwm defnyddwyr ac eraill | 2,077 | 2,077 | 5,552 |
| **Cyfanswm Adnoddau I fewn** | 36,225 | 36,225 | 8,322 |
| **Adnoddau a Ddefnyddiwyd** | | | |
| **Gweithgareddau elusennol** | | | |
| Costau rhedeg yr adeilad | 3,952 | 3,952 | 4,271 |
| Glanhau | 430 | 430 | 560 |
| Cynnal a chadw | 2,849 | 2,849 | 730 |
| Offer Newydd / Gwelliannau | 27,610 | 27,610 | 0 |
| Costau Swyddfa :- | | | |
| - costau ysgrifenydd | 0 | 0 | 0 |
| - Manion | 131 | 131 | 148 |
| - Llog ar y benthyciad | 0 | 0 | 40 |
| **Costau Llywodraethu** | | | |
| Cyfrifo | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Adnoddau a Ddefnyddiwyd** | (-34,972) | (-34,972) | (-5,749) |
| **Symudiadau net y flwyddyn** | 1,253 | 1,253 | 2,573 |
| **Cronfa d/y** | 118,229 | 118,229 | 115,656 |
| **Cronfa c/y** | 119,482 | 119,482 | 118,229 |

Mae'r nodiadau ar dudalen 7 i 9 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn

**CWMNI CANOLFAN YR AELWYD CYF.**

**MANTOLEN**

**AR 31 MAWRTH 2021**

| | Nodyn | 2021 £ | 2020 £ |
|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | |
| Asedau Gweladwy | 3 | 70,550 | 70,550 |
| | | 70,550 | 70,550 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Dyledwyr | 4 | 0 | 0 |
| Buddsoddiad wrth gefn | | 18,000 | 18,000 |
| Arian yn y banc ac ar law | | 30,932 | 29,679 |
| | | 48,932 | 47,679 |
| **CREDYDWYR** - symiau'n daladwy o fewn blwyddyn | 5 | 0 | 0 |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | 48,932 | 47,679 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI CREDYDWYR** | | 119,482 | 118,229 |
| **CREDYDWYR** - symiau'n ddyledus ar ôl blwyddyn | 6 | 0 | 0 |
| **ASEDAU NET** | | 119,482 | 118,229 |
| **CRONFEYDD - Anghyfyngedig** | 7 | 119,482 | 118,229 |

Am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018 roedd gan y Cwmni'r hawl i ymeithrio o'r rheidrwydd i gael archwiliad dan ddarpariaethau Adran 477 Deddf Cwmnïau 2006. Nid yw'r aelodau wedi cyflwyno rhybudd o dan Adran 476 yn gofyn am archwiliad. Mae'r Cyfarvvyddwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau am sicrhau bod y cwmni'n cadw cofnodion cyfrifo sy'n cydymffurfio ag Adran 386 ac am baratoi cyfrifon sy'n rhoi golwg cywir a theg ar gyflwr materion y Cwmni ar ddiwedd y flwyddyn a'i ddiffyg neu warged ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny yn unol a gofynion Adran 394 a 395, ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf gyda golwg ar y cyfrifon cyn belled a'u bod yn berthnasol i'r Cwmni.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol a'r darpariaethau arbennig o Ran 15 y Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau bychain ac yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol ar gyfer cwmnïau bychain (effeithiol Ebrill 2008).

Arwyddwyd ar ran y Bwrdd

Aled Wynne [signature] ........ (Cyfarwyddwr)

3/6/2021 ........ Dyddiad

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7 i 9 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

**CWMNI CANOLFAN YR AELWYD CAERNARFON CYF.**

**NODIADAU I'R CYFRIFON**

**AM Y CYFNOD YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2021**

**1.** Polisïau Cyfrifo

a. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, Datganiad o Arferion ac Argymhellion 2005 (SORP 2005) a gyhoeddwyd gan y Comisiynwyr Elusennau yng Nghymru a Lloegr, Safon Adrodd Ariannol ar gyfer cwmnïau bychain (effeithiol Ionawr 2005) a Deddf Cwmnïau 1985.

b. Mae'r asedau sefydlog wedi eu dibrisio dros eu hoes economaidd fel a ganlyn :-

Adeilad 0 - 2%

Ni ddibrisir yr Adeilad. Ym marn y cyfarwyddwyr mae'r polisi yma yn rhoi darlun cywir a theg. Mae pris yr adeilad yn llawer mwy na'r gost yn y cyfrifon.

c. Nid yw'r cyfrifon yn cynnwys datganiad llif arian oherwydd bod y cwmni, fel cwmni bychan yn cael rhyddhad rhag paratoi'r fath ddogfen dan ganllawiau FRS1.

ch. Cynhwysir holl gostau'r elusen yn natganiad y symudiadau ariannol yn unol â'r drefn o gronni costau, ble mae dyletswydd gyfreithiol yn bodoli. Manylwyd y costau yn ôl canllawiau'r Datganiad o Arferion ac Argymhellion 2005.

d. Cynhwysir incwm pan fo'n dderbyniadwy ac incwm o brif weithgareddau'r Cwmni.

**2.** Mae'r Gwarged ar weithgareddau wedi ei ddangos ar ôl cymryd ystyriaeth o'r canlynol

| | **2021** | **2020** |
|---|---|---|
| | **£** | **£** |
| Ffi cyfrifo | nil | nil |
| Dibrisio (nodyn 3) | nil | nil |
| | === | === |

Nid oes staff cyflogedig.

Nid yw'r Cwmni'n talu neu gyfrannu tuag at bensiwn aelodau'r Bwrdd.

| Nodyn | | 2021 £ | 2021 £ | 2020 £ |
|---|---|---|---|---|
| 3 | **Asedau Sefydlog** | | | |
| | | **Tir ac Adeiladau** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| | **Cost** | | | |
| | d/y | 70,550 | 70,550 | 70550 |
| | Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 |
| | c/y | 70,550 | 70,550 | 70,550 |
| | **Dibrisio** | | | |
| | d/y | | | |
| | Am y cyfnod | 0 | 0 | 0 |
| | c/y | 0 | 0 | 0 |
| | **Gwerth ar y llyfrau** | | | |
| | ar 31.3.20 | 70,550 | 70,550 | 70,550 |

Defnyddir yr holl asedau i bwrpas elusennol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 4 | **Dyledwyr** – symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | | | |
| | Dyledwyr Masnachol | | nil | nil |

| Nodyn | | 2021 | 2020 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| 5 | **Credydwyr** Masnachol | Nil | Nil |
| | Benthyciad | 0 | 0 |
| | | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 | **Credydwyr** – symiau'n ddyledus ar ôl blwyddyn | | |
| | Benthyciad | 0 | 0 |
| | | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7 | **Cronfeydd** | | |
| | Incwm a Gwariant (angyfyngedig) | 119,482 | 118,229 |

8 **Trafodion Perthnasol**

Mae'r Cwmni'n cael ei reoli gan y Bwrdd a enwir ar dudalen 2. Ni fu unrhyw drafodion rhwng y Cwmni ac aelodau'r Bwrdd yn ystod y cyfnod. Ni thalwyd unrhyw gostau teithio i aelodau'r Bwrdd.

9 **Asedau Net**

| | Anghyf-yngedig | Cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Asedau Gweladwy | 70,550 | 70,550 | 70,550 |
| Asedau Cyfredol | 48,932 | 48,932 | 47,679 |
| Credydwyr | 0 | 0 | 0 |
| | 119,482 | 119,482 | 118,229 |